

Cyngor Cymuned Llanelian (306)

Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 4, 2018 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Thomas Jones, Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Helen Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Ian Evans, Glenys Jones,

Ymddiheuriadau: John Griffiths, Cyng. Richard Jones, Cyng. Aled Jones

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc)

Yn absennol: Cyng. Richard Griffiths, David Gerrard

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Ian Evans – Darpariaeth Addysg
Carol Whitaker – Darpariaeth Addysg

Cytuno byddai'r clerc yn gwneud ymholiadau ynglyn a chael caniatad arbennig i'r aelodau cyn yr ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer dyfodol darpariaeth addysg gan fod gan y mwyafrif o aelodau gyswllt a'r ysgol gynradd neu'r ysgol uwchradd. Ni fu trafodaeth ar y mater. CT

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Dafydd Griffiths, eilio Hefina Williams

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Priffyrdd

Cafwyd wybod bod CSYM yn cysylltu a Stad Llys Dulas ynglyn a thrwsio mynediad tuag at Porth Gwichiad. Cafwyd wybod hefyd nad oedd modd hawlio arian ychwanegol tuag at gynnal llwybrau cyhoeddus yn yr ardal. Deallwyd bod y llwybrau wedi eu cynnwys mewn arolwg diweddar wedi eu dewis ar hap, a bydd CSYM yn cysylltu yn y flwyddyn newydd i drafod blaenoriaethu rhai llwybrau yn y dyfodol. Tybiai'r aelodau y byddai'r llwybr ger Lletroed tuag at Mynydd Parys yn un o'r rhai i'w flaenoriaethu. Y clerc i wirio cofnodion cyn gyfarfodydd i gadarnhau pwy oedd yn gyfrifol am osod y ffens a'r gamfeydd. CT

Nodwyd nad oedd diweddariad hyd yma ynglyn a'r garafan ym Mhengorffwysfa.

Trafodwyd ymateb Alun Roberts, Swyddog Priffyrdd ynglyn a chyflymder cerbydau ar y ffordd osgoi. Nid oedd yr aelodau yn fodlon ag ymateb CSYM ac am drefnu cyfarfod gydag Alun Roberts, deilydd portfolio priffyrdd a'r cynghorwyr sirol cyn gyted a phosib. CT

Nododd Gordon Hayes bod carreg rhydd ar y gyffordd ger y Bedol a'r A5025 angen sylw. Y clerc i godi ymwybyddiaeth CSYM. CT

4.2 Ysbwriel a Gwastraff

Dim diweddariad, y clerc i gysylltu eto ynglyn a sefyllfa ysbwriel ger Cae Dwr. CT

4.3 Blwch Post

Cafwyd wybod nad oedd y Post Brenhinol wedi gallu cysylltu a pherchnogion yr adeilad i ddileu'r hen flwch post. Cytuno dylai'r clerc gysylltu a gofyn am flwch newydd tu allan i'r siop beth bynnag. CT

4.4 Gardd Top Rallt

Nodwyd bod Gardd Top Rallt wedi twtio ei olwg erbyn hyn.

4.5 Datblygiad Dublin

Dim diweddariad.

4.6 Sul y Cofio

Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi ysgrifennu at yr Ysgol ac at y Clwb Ieuencid i ddiolch am eu presenoldeb a hefyd am yr arddangosfa yn y Neuadd ddiwedd Hydref.

4.7 Darpariaeth Addysg Ardal Amlwch

Cytuno peidio a thrafod y mater ymhellach cyn ceisio am ganiatad arbennig gan y pwyllgor safonau. Cytuno ymateb i CSYM drwy gydnabod y dogfennau ymgysylltu a chadarnhau bydd y Cyngor yn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol. CT

5 Adroddiadau Pwyllgorau

5.1 Caeau Chwarae

Dim diweddariad.

5.2 Llithrfa

Mae disgwyl anfoneb gan CSYM am hanner gost y faner Gwobr Glan Mor.

Nodwyd bod CSYM yn cynnal asesiad ar hyn o bryd ynglyn a'r angen am doiledau cyhoeddus. Dosbarthwyd holiaduron i bawb oedd yn bresennol. Gofynnir i bawb eu cwblhau fel unnigolion. Cytuno byddai'r Cyngor yn anfon ebost/llythyr mewn ymateb. Dafydd Griffiths i lunio ymateb i'r clerc ei hafnon. CT

5.3 Mynwent

Nodwyd bod giat y fynwent yn symud yn ei flaen. Cadarnhaodd Thomas Jones ei fod wedi diogelu'r gwaith metel fel bo angen ac wedi gwenwyno'r coed yn unol a gofynnion y pwyllgor.

5.4 Cyllid a Pholisi

Dim diweddariad. Bydd y pwyllgor yn cwrdd i drafod y gyllideb yn fuan yn y flwyddyn newydd. Nodwyd bod gofyn erbyn hyn cynnwys penawd a chyllid ar gyfer hyfforddiant aelodau. CT

5.5 Pwyllgorau Allannol

Cafwyd grynodedb gan Dafydd Griffiths o'r hyn sydd yn digwydd gyda Wylfa Newydd a sefyllfa Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon. Nodwyd bod arbennigwyr Wood wedi paratoi niger o ddatganiadau ysgrifenedig yn amlinellu pryderon yr ardal a gobeithir bydd Horizon yn ymateb erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'n debyg bydd gwrandawidau a chyfle i gyflwyno ymhellach yn fuan yn y flwyddyn newydd. Diolchwyd i Dafydd Griffiths am y wybodaeth.

6 Cynllunio

6.1 Ceisiadau – Roedd un cais i'w ystyried sef Tan Rhald (HHP/2018/4). Ni fu CT gwrthwynebiad i'r datblygiad. Cynnig Thomas Jones, eilio Dafydd Griffiths.

6.2 Penderfyniadau – Ni chafwyd wybod am benderfyniadau CSYM.

7 Materion Ariannol

7.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –

£20.00 Un Llais Cymru – Hyfforddiant
£49.99 Cyngor Cymuned Llanbadrig (hanner cost Microsoft Office)
£750.00 Ad-daliadau Llithrfa
£40.00 Un Llais Cymru – Hyfforddiant
£604.33 Carli Evans Thau (cyflog gan gynnwys gweinyddu llithrfa)
£371.10 Swyddfa Archwilio Cymru – Archwiliad

Nodwyd bod costau archwiliad mewnol ac allanol wedi bod llawer uwch na'r gorffennol a bydd angen ystyried hyn wrth drafod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

7.2 Ceisiadau am Arian

Ni fu ceisiadau i'w ystyried.

8 Cronfa Tŷ Moel Isaf

Cafwyd gadarnhad gan y cyfreithiwr bod gweddill yr arian wedi ei drosglwyddo i gyfrif y Cyngor erbyn hyn. CYtuno trefnu cyfarfod arbennig yn y flwyddyn newydd i drafod ymhellach. Mae posib bydd newidiadau mawr yn y gymuned yn y dyfodol agos ac mae angen edrych ar wahanol posibilïadau.

9 Iechyd a Diogelwch

Pryderon diogelwch ffordd yn parhau (gweler materion yn codi o'r cofnodion).

10 Wylfa Newydd

Gweler pwyllgorau allanol uchod.

11 Gohebiaeth

11.1 Ymgynghoriad Cyllideb CSYM – daethpwyd a'r ddogfen at sylw'r aelodau a trafodwyd ei gynnwys. CYtuno cysylltu a'r cadeirydd erbyn y dyddiad cau os am wneud sylw.

11.2 Ymgynghoriad Cyllideb Comisiynydd Heddlu - daethpwyd a'r ddogfen at sylw'r aelodau. Cytuno cysylltu a'r cadeirydd erbyn y dyddiad cau os am wneud sylw.

12 Unrhyw Fater Arall

12.1 Presenoldeb Cynghorwyr Sirol – Nodwyd bod tri cynghorydd yn cynrychioli ardal Twrcelyn a bod angen mwy o ymdrech ganddynt i gefnogi'r gymuned a mynychu cyfarfodydd y cyngor. Dim ond Aled Jones sydd yn mynychu cyfarfodydd Cyngor Llaneilian yn reolaidd. Nid oes modd i'r cynghorwyr wybod teimlad a barn y gymuned a'r cyngor lleol os nad ydynt yn dod i'r cyfarfodydd ac yn gwando a thrafod. Cadarnhaodd y clerch ei bod wedi anfon rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd 2019 i'r aelodau sirol yr un pryd ag anfonwyd y wybodaeth i'r cynghorwyr. Gofynnwyd i'r clerch gysylltu a hwy eto gan nodi bod disgwyl iddynt fynychu cyfarfodydd yn reolaidd a chefnogi'r gymuned. CT

12.2 Dwr ar y ffordd – Cytuno ysgrifennau at CSYM eto i nodi pryderon trigolion Dinorben Terrace bod dwr yn casglu ar y ffordd a bod peryg o lifogydd gan fod y tai ar yr un lefel a'r lon. Gofynnwyd hefyd am esboniad beth yw'r beipen bach ger Gwynfa. Mae pryder bod y dwr sy'n dod ohono yn fudur iawn. CT

12.3 Coeden Nadolig – cytuno byddai'r cyngor yn canfod coeden Nadolig i'r pentref. Mae hyn wedi ei drafod eisioes yn y gorffennol. Nododd Elfyn Hughes byddai posib gosod coeden ar dir y Neuadd. Nododd Carol Whitaker bod ganddi oleuadau i'w addurno. Y clerch i wneud ymholiadau a chanfod coeden gan wario cyn lleied a phosib. Cynnig Carol Whitaker, eilio Hefina Williams. CT

13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf Ionawr 15, 2019 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30

**Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd**

CET12/2018